# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 22/09/2010

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cyllidebau Iechyd

**8.** ***David Melding:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am weithredu cyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyllidebau iechyd. OAQ(3)1637(HSS)*

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Mae byrddau iechyd yn gweithio i ddarparu'r fframwaith gweithredu blynyddol a gyhoeddais ar gyfer 2010-11, a hynny o fewn y cyllidebau refeniw yr hysbysais hwy amdanynt ym mis Mawrth.

### Cyllideb

***9. Leanne Wood:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllideb y GIG yng Nghymru. OAQ(3)1635(HSS)*

**Edwina Hart:** Ar gyfer 2010-11, mae £4.9 biliwn o refeniw wedi'i ddyrannu ar gyfer y GIG yng Nghymru. Cyfanswm gwerth rhaglen adnewyddu cyfalaf iechyd cymru gyfan yn 2010-11 yw £311.7 miliwn. Bydd yr arian hwnnw yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i adeiladu cyfleusterau cwbl newydd ar gyfer y GIG, i gynnal gwaith uwchraddio mawr ac ar asedau strategol eraill. Mae hyn yn hanfodol bwysig i foderneiddio'r gwasanaeth iechyd a sicrhau bod modd gwella gwasanaethau i gleifion.

### Cynllun Grantiau Eiriolaeth Anabledd Dysgu

***10. Mark Isherwood:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y Cynllun Grantiau Eiriolaeth Anabledd Dysgu. OAQ(3)1628(HS)*

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Ar 12 Medi, penderfynodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol barhau â'r cynllun grant hwn dros y tair blynedd nesaf, gyda lefel o gyllid a fydd yn gostwng yn raddol. Bydd hynny'n hwyluso'r gwaith o gyflawni diben y grant, sef darparu arian ysgogi er mwyn i'r gwasanaethau hyn gael eu cyflenwi'n lleol.

### Ysbyty Llandudno

***11. Gareth Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynigion diweddar i ddatblygu gwasanaethau newydd yn Ysbyty Llandudno. OAQ(3)1678(HSS)*

**Edwina Hart:** Mae bwrdd prosiect Ysbyty Llandudno wedi nodi nifer o feysydd y byddai'n bosibl eu datblygu. Bydd rhagor o waith yn cael ei gynnal yn awr i ddatblygu cynnig terfynol imi ei gymeradwyo, a fydd yn cynnwys amserlen ac amcangyfrif o'r lefel o fuddsoddiad a fydd ei hangen.

### Clefyd Huntington

***12. Trish Law:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd mae clefyd Huntington yn effeithio arnynt. OAQ(3)1630(HSS)*

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi gwneud gwasanaethau ar gyfer cyflyrau fel clefyd Huntington yn flaenoriaeth uchel, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael diagnosis sydyn, yn ogystal â thriniaeth, gofal a chefnogaeth addas. Byrddau iechyd lleol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn, ac ar hyn o bryd maent yn eu gwella yn unol â chyfres o argymhellion gan arbenigwyr ym maes niwrowyddorau.

### Gwasanaethau Demensia yng Nghymru

***13. Lorraine Barrett:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i wasanaethau demensia yng Nghymru. OAQ(3)1644(HSS)*

**Edwina Hart:** Fe'ch cyfeiriaf at fy llythyr at bob Aelod Cynulliad, dyddiedig 12 Gorffennaf, ynghylch dyfodol gwasanaethau demensia yng Nghymru. Yr wythnos hon, yr wyf wedi darparu adroddiad diweddaru ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

### Mesur Iechyd Meddwl

***14. Jonathan Morgan:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'i Mesur Iechyd Meddwl. OAQ(3)1675(HSS)*

**Edwina Hart:** Daeth y Mesur arfaethedig i ddiwedd Cam 1 o'r broses ddeddfwriaethol ym mis Gorffennaf, a bydd yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Cam 2 ar 30 Medi. Yn ystod y cam hwnnw, bydd gwelliannau'r Llywodraeth yn cael eu cyflwyno er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny a godwyd yn ystod Cam 1 am eu bod yn achosi pryder. Y bwriad yw cwblhau proses ddeddfwriaethol y Cynulliad erbyn diwedd y flwyddyn hon.

### Blaenoriaethau

***15. Nick Ramsay:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf. OAQ(3)1668(HSS)*

**Edwina Hart:** Fy mlaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf yw cwblhau'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau 'Cymru'n Un', gweithio i wella iechyd pobl a sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig o ansawdd da sy'n cynnig profiad da i gleifion, ac sy'n gallu bod yn hyblyg wrth ymateb i'w hanghenion.

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

### Cronfa Buddsoddi Strategol

***10. Ann Jones:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Gronfa Buddsoddi Strategol.*

*OAQ(3)1611(ECT)*

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Yr wyf yn falch i ddweud mai cyfrifiadura perfformiad uchel Cymru oedd un o'r pedwar prosiect a ddewiswyd ym mis Gorffennaf 2009 o Gymru i wneud cais i gronfa buddsoddi strategol new industries new jobs UK. Bydd y cais llwyddiannus hwn yn sbarduno £10 miliwn o gyllid ychwanegol y DU i Gymru.

**Blaenoriaethau**

***11. Nick Bourne:*** *A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf. OAQ(3)1602(ECT)*

**Ieuan Wyn Jones:** Fy mlaenoriaeth yw rhoi dull gweithredu'r Llywodraeth gyfan ar waith fel y'i nodir yn 'Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd', gan sicrhau bod mentrau trafnidiaeth integredig yn cael eu gweithredu.

**Tocynnau Teithio Rhatach**

***12. Kirsty Williams:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio tocynnau teithio rhatach ar fysiau i deithio o Gymru i Loegr. OAQ(3)1596(ECT)*

**Ieuan Wyn Jones:** Mae'r cynllun i ddarparu tocynnau bws rhatach ar draws Cymru gyfan yn caniatáu rhywfaint o deithio dros y ffin i leoedd o bwys yn Lloegr ac yn ôl adref, yn unol â disgresiwn yr awdurdod lleol perthnasol.

**Prosiectau Seilwaith Trafnidiaeth**

***13. Mick Bates:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer prosiectau seilwaith trafnidiaeth yn y Canolbarth. OAQ(3)1614(ECT)*

**Ieuan Wyn Jones:** Mae fy mlaenoriaethau o ran prosiectau'n ymwneud â seilwaith trafnidiaeth yn cael eu disgrifio yn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Disgrifir y blaenoriaethau o ran trafnidiaeth ranbarthol yng nghynllun trafnidiaeth rhanbarthol Trafnidiaeth Canolbarth Cymru.

*Tynnwyd cwestiwn 14 OAQ(3)1599(ECT) yn ôl*

**Mentrau Cymdeithasol**

***15. Bethan Jenkins:*** *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fewnbwn yr adran datblygu economaidd i fentrau cymdeithasol. OAQ(3)1579(ECT)*

**Ieuan Wyn Jones:** Mae swyddogion yn yr adran yn gweithio'n agos â'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ogystal â Gwerth Cymru i helpu mentrau cymdeithasol a'r trydydd sector. Maent yn gwneud hyn trwy amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys eu helpu i wella cyfleoedd i werthu nwyddau a gwasanaethau i'r sector cyhoeddus a chontractwyr pwysig.